

# Addysg / Education

Pennaeth Addysg /  
Head of Education – Garem Jackson



☎ (01286) 679089 Ein Cyf / Our Ref:  
📄 (01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:  
✉ GaremJackson@gwynedd.llyw.cymru



12 Chwefror/February 2021

AT: RIENI/OFALWYR PLANT CYFNOD SYLFAEN (3-7 OED) YSGOLION GWYNEDD  
TO: PARENTS/CARERS OF GWYNEDD SCHOOLS FOUNDATION PHASE CHILDREN (3-7 YEARS)

## Trefniadau ar ôl hanner tymor Chwefror 2021

## After half term arrangements February 2021

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau datganiad ynglŷn â threfniadau dechrau ail-agor ysgolion ar ôl hanner tymor Chwefror:

The Welsh Government has released a statement on arrangements to begin re-opening schools after February half term:

*“O ddydd Llun 22 Chwefror, bydd ysgolion yn dechrau dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb fesul cam ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen, sef plant 3 – 7 oed YN UNIG.”*

*“From **Monday, 22 February**, schools will start a phased return to face to face learning **for our Foundation Phase learners, 3 – 7 year olds ONLY.**”*

Bydd rhywfaint o hyblygrwydd dros yr wythnos gyntaf hon, gyda'r holl blant Cyfnod Sylfaen yn mynychu'r ysgol erbyn diwedd yr wythnos honno.

There will be some flexibility over this first week, with all Foundation Phase children attending school by the end of that week.

Bydd ysgolion yn parhau i ddarparu addysg ar gyfer plant hŷn sy'n agored i niwed a phlant hŷn gweithwyr hanfodol yn yr ysgol, a bydd yr ysgolion yn parhau i ddarparu addysg o bell ar gyfer plant eraill.

Schools will still be providing educational provision for older vulnerable children and older children of critical workers in school, and schools will continue to provide distance learning for all other children.

**Yn unol â datganiad diweddar y Gweinidog y disgwyliad yw yng Ngwynedd y bydd dychweliad graddol a hyblyg i'r ysgol, gan ystyried amgylchiadau lleol, gyda holl blant y Cyfnod Sylfaen yn ôl yn yr ysgol erbyn diwedd yr wythnos yn dechrau 22 Chwefror.**

**In line with the Minister's recent statement the expectation in Gwynedd is that there will be a phased and flexible return to school, taking account of local circumstances, with all Foundation Phase children back in school by the end of the week beginning 22 February.**

Swyddfa'r Cyngor  
Caernarfon  
Gwynedd LL55 1SH  
01766 771000  
www.gwynedd.llyw.uk

Byddwn yn parhau i fonitro sefyllfa Gwynedd o ran niferoedd achosion COVID-19 a gall y trefniadau hyn newid yn dibynnu ar amgylchiadau lleol.

We will continue to monitor Gwynedd's position in relation to the COVID-19 outbreak and these arrangements may change depending on local circumstances.

**Er mwyn i'r dysgu wyneb yn wyneb i'n plant Cyfnod Sylfaen ddigwydd, gofynnwn yn ddiffuant i rieni/gofalwyr:**

**In order for the face to face learning for our Foundation Phase children to take place, we sincerely ask parents/carers:**

- barhau i fod yn wylidwrus;
- cadw pellter wrth gatiâu'r ysgol a gwisgo gorchudd wyneb;
- peidio â chaniatáu i blant i aros dros nos gyda theuluoedd eraill;
- peidio â chymysgu y tu allan i'r ysgol, a
- pheidio ag anfon disgyblion i'r ysgol os oes ganddynt symptomau neu os ydynt wedi profi'n bositif am COVID-19.

- to remain vigilant;
- keep a distance at the school gates and wear a face covering;
- not allow children to stay overnight with other families;
- not to mix outside of school, and
- not send learners into school if they have symptoms or have tested positive for Covid-19.

Gyda llawer o ddiolch am eich cydweithrediad yn ystod yr amseroedd heriol hyn.

With many thanks for your co-operation during these challenging times.

Yn gywir/yours sincerely



**Garem Jackson**  
**Pennaeth Addysg/Head of Education**